**Mark Drakeford AS/MS**
**Y Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA/MDFWL/10312/24

Peredur Owen Griffiths AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid,
Y Senedd,
Bae Caerdydd,
Caerdydd
CF99 1NA

18 Medi 2024

Annwyl Peredur

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod ichi am fy nghynlluniau diwygiedig i gyhoeddi'r gyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2024-25.

Rwy'n bwriadu cyhoeddi'r gyllideb atodol gyntaf ar 1 Hydref 2024, ac yn unol â'r Rheolau Sefydlog, bydd y ddadl a'r bleidlais yn cael eu cynnal ar 22 Hydref i sicrhau cyfnod o 3 wythnos ar gyfer y gwaith craffu.

Fel yr arfer, byddaf yn cyhoeddi'r ail gyllideb atodol tua diwedd y flwyddyn ariannol.

Bydd y gyllideb atodol gyntaf yn adlewyrchu'r newidiadau diweddar i bortffolios y Cabinet gan ddiweddaru tablau Prif Grwpiau Gwariant y Gyllideb Derfynol a gyhoeddwyd ym mis Mehefin a fydd wedi hynny yn ffurfio'r llinell sylfaen ar gyfer tablau'r gyllideb atodol gyntaf.

Bydd atodiad sy'n dangos y newidiadau rhwng tablau'r llinellau gwariant yn y gyllideb a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2024 a'r llinell sylfaen a fydd wedi'i hailddatgan ar gyfer y gyllideb atodol gyntaf yn cael ei gynnwys yn rhan o'r ddogfennaeth a gyhoeddir am y gyllideb.

Bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at y Pwyllgor Busnes, Comisiwn y Senedd, Archwilio Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru er gwybodaeth.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gobeithiaf fod yr wybodaeth ddiweddaraf hon yn ddefnyddiol ichi.



**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language